

Apeliadau

Canllawiau i Rhieni



Contents

Beth sy'n digwydd os gwrthodir lle i'ch plentyn?	3
Meini prawf ar gyfer Derbyn Disgyblion	3
Cofrestru'ch Apêl	4
Pa bwerau sydd gan y Panel Apeliadau?	5
Ni all y Panel Apeliadau:	5
Pwy fydd yn y Gwrandawriad Apêl?	5
A fyddaf yn cael gwybodaeth am achos yr ALL cyn y gwrandawriad apêl?	6
Sut allaf i baratoi am y gwrandawriad apêl?	6
Beth fydd yn digwydd yn y Gwrandawriad Apêl?	6
Sut fyddaf i'n cael gwybod beth yw canlyniad fy apêl?	6
Cyfeiriadau Defnyddiol:	7

Gall gwneud apêl fod yn broses anodd. Mae'n cynnwys ysgrifennu llythyr apêl a mynychu gwrandawriad o fl aen panel apêl i ddadlau eich achos. Nod y llyfryn hwn yw eich helpu i baratoi'ch apêl, gan gynnwys paratoi ar gyfer y gwrandawriad. Mae hefyd yn nodi prif agweddau'r broses apelio.

Beth sy'n digwydd os gwrthodir lle i'ch plentyn?

In Yn y mwyafrif helaeth o achosion, cynigir lleoedd i blant yn yr ysgol sy'n ddewis cyntaf eu rhieni. Fodd bynnag, os nad yw'ch plentyn yn gallu cael ei dderbyn, bydd angen i chi benderfynu a ydych yn fodlon derbyn lle a gynigir mewn ysgol wahanol, neu a ydych eisiau parhau â'ch cais cyntaf. Os ydych yn dewis yr ail ff ordd o weithredu, cewch apelio i Banel Apeliadau Annibynnol. Bydd y Panel Apeliadau Annibynnol hwn yn penderfynu a yw'r ysgol yn llawn ac, os yw'n llawn, a yw amgylchiadau'r rhieni mor gryf fel y dyl-id cynnig lle i'r plentyn er hynny. Cyn i chi apelio, ystyriwch feini prawf derbyn yr ALI (a nodir isod). Dylid nodi nad oes hawl apelio gan ddisgyblion oed Meithrin.

Meini prawf ar gyfer Derbyn Disgyblion

(Mae'r meini prawf yn gymwys i bob derbyniad)

1. Plant sy'n Derbyn Gofal (sef Plant o dan ofal cyhoeddus) a'r plant hynny a oedd yn Derbyn Gofal yn flaenorol.
2. Y plant hynny sy'n byw yn nalgylch yr ysgol cyn neu ar y dyddiad cau cyhoeddedig.



Noder: Bydd y plant hynny sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ac sydd â brawd neu chwaer eisoes yn mynychu'r ysgol yn cael eu derbyn yn gyntaf (rhaid i'r brawd neu chwaer fod o oed ysgol statudol), ac yna bydd y plant hynny sy'n byw yn nalgylch yr ysgol heb frawd neu chwaer yn cael eu derbyn.*

3. Plant gyda brodyr neu chwiorydd yn byw yn yr un cartref sy'n mynychu'r ysgol ym Medi 2022. Rhaid i'r brawd/chwaer fod o oedran ysgol statudol.
4. Ar ôl ystyried yr holl categorïau uchod, bydd y flaenoriaeth yn cael ei seilio ar agosrwydd at yr ysgol wedi'i fesur gan gronfa ddata System Gwybodaeth Ddaearyddol yr Awdurdod.

Mae pellter yn cael ei fesur o fynedfa neu gât agosaf y cartref i fynedfa neu gât agosaf yr ysgol.

Noder: Nid yw'r System Gwybodaeth Ddaearyddol yn ystyried unrhyw lwybrau byr. Os oes gan yr ALI y sefyllfa lle mae unrhyw gyfeiriadau cartref yn cyfrif yr un pellter, yna defnyddir olwyn fesur i sefydlu'r cyfeiriad agosaf.

** Mae brawd neu chwaer yn blentyn sy'n frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant sy'n rhannu un rhiant cyffredin), llys-frawd/chwaer lle y mae dau o blant*

yn perthyn drwy briodas. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant wedi eu mabwysiadu neu eu maethu sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

Dylid nodi hefyd y bydd unrhyw ddisgyblion sydd a datganiad o anghenion addysgol arbennig neu Gynllun Datblygu Unigol (C.D.) sy'n nodi bod yn rhaid iddynt fynychu ysgol benodol er mwyn gallu diwallu eu hanghenion yn cael eu derbyn hefyd.

Bydd plant personél Gwasanaethau Arfog y DU yn cael eu trin fel eu bod yn byw mewn dalgylch os darperir tystiolaeth o'r penodiad.

Bydd disgyblion o du allan i ardal dalgylch yr ysgol yn cael mynediad yn unol â dewis y rhieni os nad yw uchafswm Rhif Mynediad yr ysgol wedi ei gyrraedd ac, os yw dethol yn angenrheidiol, defnyddir y meini prawf uchod.


Lle mae rhieni yn rhannu cyfrifoldeb am blentyn, a bod y plentyn yn byw gyda'r ddau riant am ran o'r wythnos, wedyn penderfynir y cyfeiriad cartref y mae'r plentyn yn byw ynddo am y mwyafrif o'r wythnos (e.e. 3 allan o 5 diwrnod ysgol). Bydd angen i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r cyfeiriad y maent eisiau cael ei ystyried am ddibenion dyrannu. Bydd angen i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r cyfeiriad y maent am ei ystyried ar gyfer dibenion dyrannu (e.e. taliadau Budd-dal Plant).

Caiff disgyblion o'r tu allan i ddalgylch yr ysgol eu derbyn os nad yw nifer safonol yr ysgol, y dosbarth neu'r uned wedi'i chyrraedd, ac os oes angen dewis, caiff y meini prawf a ddangosir uchod eu defnyddio.

Cofrestru'ch Apêl

Rydych yn gwneud apêl ffurfiol yn erbyn penderfyniad yr ALL, ond rhaid i hon gael ei derbyn o fewn 28 diwrnod calendr ar ôl i chi gael gwybod am y penderfyniad i beidio â derbyn eich plentyn i'r ysgol roeddech wedi'i dewis. Dylech anfon yr apêl hon ar bapur at y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol. Bydd yr ALL yn cyfeirio'r apêl at Adran Gyfreithiol y Cyngor. Byddant yn trefnu i'r apêl gael ei chlywed gan Banel Apeliadau Annibynnol ac yn trefnu amser a lle ar gyfer y gwrandawriad. Bydd y Panel yn cynnig cyfle i'r rhieni ymddangosa chyflwyno eu sylwadau (ar lafar a/neu ar bapur). Fodd bynnag, hysbysir rhieni:

1. Y gallant ddewis peidio â mynychu'r cyfarfod apêl ac yn lle hynny, caniatáu i'r apêl gae ei hystyried ar ddatganiad ar bapur;
2. Y caiff yr apêl ei phenderfynu ar y wybodaeth sydd ar gael os nad ydynt yn ymddangos, wedi peidio â rhoi esboniad rhesymol;
3. Bod croeso iddynt ddod â chyfaill neu gydweithiwr neu gael eu cynrychioli gan gyfreithiwr, ond yn achos yr ail ddewis, dylid rhoi gwybod i'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol o leiaf saith diwrnod cyn y gwrandawriad. Nodwch fod



Panel Apeliadau ar wahân yn gwrando apeliadau yn erbyn penderfyniadau Cyrff Llywodraethu Ysgolion Sefydledig yn ogystal ag Ysgolion Cymorthedig Gwirfoddol. Felly dylid ceisio cyfarwyddyd ar apêl o'r fath oddi wrth yr ysgol dan sylw. Nodwch fod yna gyfyngiadau ar bwerau'r panel apeliadau i ganiatáu apeliadau yn erbyn gwrthod derbyn plentyn i ysgol gynradd neu fabanod lle byddai gwneud hynny'n achosi torri'r ddeddfwriaeth ar feintiau dosbarthiadau babanod. Ar ôl derbyn eich apêl bydd clerc y panel yn anfon atoch gopi o Gôd Ymarfer Apeliadau Derbyniadau Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n cynnwys canllawiau ar apeliadau.

Pa bwerau sydd gan y Panel Apeliadau?

Mae'r panel yn annibynnol ar yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys yr Awdurdod Addysg Lleol.

Gall y Panel Apeliadau naill ai gwrthod neu ganiatáu'ch apêl. Nid oes pwêr arall ganddo.



Ni all y Panel Apeliadau:

Osod unrhyw amodau os yw'n caniatáu'ch apêl.

Gwrando cwynion neu wrthwynebiadau ar agweddau ehangach polisïau ac arferion lleol ar dderbyn e.e. ni all newid dalgylch ysgol.

Fodd bynnag, gall Panel Apeliadau ystyried a yw trefniadau derbyn yr ALI wedi cael eu gweithredu'n iawn.

Felly, pe bai Panel Apeliadau'n penderfynu y byddai'ch plentyn wedi cael cynnig lle pe bai'r trefniadau derbyn wedi cael eu gweithredu'n iawn, bydd y Panel yn caniatáu'ch apêl.

Mae penderfyniad y panel yn derfynol ac yn rhwymol ar y partïon dan sylw. Ni ellir ystyried rhagor o apeliadau yn yr un flwyddyn academiaidd ond lle mae newidiadau arwyddocaol a sylweddol yn amgylchiadau'r rhiant neu'r ysgol, sy'n berthnasol i gais arall.

O dan rai amgylchiadau penodol gellir cwyno wrth Ombwdsman Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru (LC). Rhoddir rhagor o wybodaeth am hyn yn ddiweddarach yn y broses.

Pwy fydd yn y Gwrandawriad Apêl?

- Chi a'ch partner, cyfaill, cydweithiwr/wraig, cefnogwr, cynrychiolydd neu gynghorydd cyfreithiol (Nodwch na allwch ddod gydag aelod o'r Cyngor, swyddog All neu wleidydd lleol).
- Y Panel Apeliadau (3 aelod, a fydd yn cynnwys o leiaf 1 aelod lleig ac 1 Ymarferydd Addysg).
- Clerc y Panel Apeliadau.
- Swyddog(ion) Addysg o'r ALI.

Mewn achosion lle mae'r rhieni'n cael eu cynrychioli gan gyfreithiwr, bydd cynrychiolydd cyfreithiol gan yr Awdurdod Addysg Lleol hefyd.

A fyddaf yn cael gwybodaeth am achos yr ALL cyn y gwrandawriad apêl?

Cyn y gwrandawriad dylai'r awdurdod derbyniadau ddarparu'r dogfennau canlynol i glerc y panel apeliadau, a dylid eu dosbarthu i aelodau'r panel a'u hanfon at y rhieni:

- nAchos yr ALL, yn dweud pam na ellid rhoi lle i'ch plentyn yn yr ysgol oedd orau gennych. Fel arfer dylai hwn ddan-gos sut mae'r trefniadau derbyn yr ysgol oedd orau gennych yn berthnasol i'ch cais chi.

- Eich ffurflen neu lythyr apêl.
- Gohebiaeth berthnasol rhyngoch chi a'r ALL.
- Y papurau rydych wedi'u darparu i gefnogi sail eich apêl.
- Clerc y panel fydd yn anfon y rhain atoch.

Sut allaf i baratoi am y gwrandawriad apêl?

Chi sy'n gyfrifol am gyflwyno'ch achos, am benderfynu beth hoffech ei ddweud yn y gwrandawriad apêl a pha wybodaeth ysgrifenedig rydych eisiau i'r Panel Apeliadau gael.

Beth fydd yn digwydd yn y Gwrandawriad Apêl?

- Croeso.
- Y clerc yn cyflwyno'r Panel Apeliadau.
- Y clerc yn cyflwyno'r weithdrefn sydd i'w ddilyn.
- Swyddog(ion) yr ALL yn cyflwyno'r achos.
- Y Panel a'r rhieni yn gofyn cwestiynau i'r ALL.
- Achos y rhieni.
- Y Panel a'r ALL yn gofyn cwestiynau i'r rhieni.
- Y ddwy ochr yn crynhoi.
- Gall Aelodau'r Panel ofyn cwestiynau ar unrhyw adeg os ydynt angen eglurhad o'r hyn sy'n cael ei ddweud, neu os ydynt angen rhagor o wybodaeth er mwyn penderfynu.

Ar ôl yr apêl bydd y panel yn ystyried os yw achos y rhieni mor gryf fel bod angen gwrthdroi'r penderfyniad i bei-dio â derbyn y plentyn.

Sut fyddaf i'n cael gwybod beth yw canlyniad fy apêl?

Bydd y panel yn gwneud y penderfyniad ar ôl iddo glywed yr holl apeliadau ynghylch yr ysgol berthnasol. Bydd clerc y panel apeliadau'n rhoi gwybod i'r rhieni ar bapur am y canlyniad cyn pen 7 diwrnod ar ôl dyddiad y gwrandawriad apêl.

Cyfeiriadau Defnyddiol:

Dylid cyfeirio ymholiadau am agweddau eraill ar dderbyniadau a dewisiadau o ran ysgolion gwahanol at:

Derbiniau Ysgol

Ffôn: 01443 864870

e-bôst: derbiniauysgol@caerffili.gov.uk